

Ar ddydd Mawrth, 16 Medi 2008, cynhaliwyd Cyfarfod o Gyngor Cymuned Trefeurig yn Hen Ysgol Trefeurig am 7.00 pm

PRESENNOL: Y Cyng. R Owen (Cadeirydd); Mrs E Davies; Mrs G Price; T Davies; D Sheppard; D R Morgan; D Jones a'r clerc. Roedd y Cyng. Sir D Suter yn bresennol hefyd

2474 Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cyng. D M Hughes a Mrs K Walker

2475 Materion Personol: Dim

2476 Datgan Diddordeb Personol: Dim

2477 Cadarnhau Cofnodion: PENDERFYNWYD cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 29ain Gorffennaf 2008 fel cofnod cywir. Trafodwyd y materion canlynol oedd yn deillio o'r Cofnodion:

Cofnod 2440 Adolygiad o Oleuadau Llwybrau Troed: Yn ystod y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8fed Medi gyda chontractwr goleuo'r llwybrau troed dyfynnwyd ffi gosod o £1197.79 y lamp ar gyfer y tri safle sydd dan ystyriaeth ar hyn o bryd. Yn ogystal, dyfynnwyd ffi cysylltu ar gyfer pob lamp gan Scottish Power fel a ganlyn - 1 @ £55 + TAW. 1 @ £1,050 + TAW. 1 @ £2,825 + TAW.

PENDERFYNWYD (1). Gofyn a fyddai Adran Oleuo Ceredigion yn fodlon ystyried uwchraddio rhai o'r goleuadau presennol rhwng y Garej a'r Bwthyn, a (2) I gael pris gan Scottish Power ar gyfer adleoli'r lamp ger sgwâr Penrhyn-coch.

Cofnod 2440 Materion Prifffyrdd: Cadarnhad gan Geredigion o rai o'r materion prifffyrdd y tynnwyd eu sylw atynt yn dilyn Cyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf. Nodwyd nad oedd yna unrhyw gyfeiriad at y pryderon ynghylch diogelwch plant ar y ffordd ger mynedfa'r cae chwarae o'r Llwybr Diogel i'r Ysgol ym Mhenrhyn-coch na'r ffaith nad yw'r goleuadau ambr sy'n fflachio i'r dwyrain o fynedfa Ysgol Penrhyn-coch yn gweithio.

Cofnod 2440 Newid cyfeiriad post: Cadarnhad gan y clerc bod trigolion Penbonrhydybeddau wedi eu gwahodd i fynegi eu barn ar y cynnig hwn

Cofnod 2442 Grŵp Datblygu Ysgol Trefeurig: Cadarnhad gan yr Ysgrifennydd bod (1) Prydles yr ysgol wedi'i harwyddo erbyn hyn a (2) Nad oedd yna unrhyw wrthwynebiad i gais y Cyngor i osod rhesel arddangos fach yn yr adeilad.

PENDERFYNWYD y bydd y clerc yn cysylltu gyda'r Grŵp pan fydd y rhesel ar gael.

Cofnod 2445 Ffonau Talu BT: Cydnabyddiaeth gan Geredigion o wrthwynebiad y Cyngor i'r bwriad i symud ffonau talu o fewn y Gymuned yn ogystal â chynnig pellach gan BT y gall Cynghorau sydd am gadw unrhyw giosg coch o fewn eu hardal fabwysiadu'r ciosg - heb y ffôn talu. Ar y llaw arall, gall Cynghorau sydd am gadw ffonau talu noddi'r gwasanaeth a chyfrannu tuag at y costau cynnal a chadw.

PENDERFYNWYD gwrthwynebu'r ddau gynnis ar y sail y dylai ffonau cyhoeddus mewn ardaloedd anghysbell fod yn wasanaeth cyhoeddus a gallent achub bywydau.

Cofnod 2446 Mynedfa cae chwarae Penbonrhydybeddau: Archwiliwyd copïau o'r brydles, y caniatâd cynllunio a mapiau, ac ym marn yr Aelodau mae'r cae chwarae'n cynnwys y fynedfa lydan. PENDERFYNWYD (1) Cysylltu â'r Heddwes Cymunedol i gael ei gyngor ynghylch y ceir sydd wedi'u parcio yn y fynedfa sy'n achosi problemau o ran gwelededd (2) Holi ynghylch arwydd Dim Parcio.

Cofnod 2449 Cyfarfod Agored y Cyngor 2008: Er gwaethaf (1) Cadarnhad ysgrifenedig yn dilyn Cyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf bod yr Hysbysiadau a Osodwyd ynghylch Cyfarfod Agored Mai 2008 yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol a (2) Nodyn i atgoffa bod modd i etholwyr fynychu Cyfarfodydd y Cyngor a gofyn am gael siarad cyn dechrau'r Cyfarfod, neu, ar y llaw arall, bod modd iddynt gysylltu gyda'r Cyngor a gofyn am gael gosod eitem ar yr agenda i'w thrafod; cafwyd llythyr arall gan y gohebydd yn mynnu bod y Cyngor yn galw Cyfarfod Agored.

PENDERFYNWYD peidio â thrafod y mater ymhellach.

Cofnod 2451 Newidiadau i Bolisi Cynllunio LICC: Rhoddodd y Cyng. R Owen amlinelliad byr o'r newidiadau arfaethedig i'r polisi cynllunio. Dilynwyd hynny gyda thrafodaeth am yr holiadur. PENDERFYNWYD cwblhau a dychwelyd yr holiadur, a nodi bod Cyfarfod Cyhoeddus i'w gynnal yn Neuadd y Penrhyn am 7.30 pm ar 14eg Tachwedd 2008 i drafod Tai Fforddiadwy a Materion Cynllunio.

Cofnod 2473 Ardal Amwynder Ystâd Dôl Helyg: Derbyniwyd cydnabyddiaeth gan Geredigion mewn ymateb i'r ymholiad ynghylch pwy sy'n berchen ac yn gyfrifol am y darn bach hwn o dir.

Derbyniwyd ac ystyriwyd yr ohebiaeth/dogfennau canlynol:

- 2478 Age Concern – gwybodaeth am Gadw'n Gynnes.** PENDERFYNWYD peidio ag anfon cynrychiolydd i'r Cyfarfod yn Aberaeron ym mis Hydref ond i ofyn am becyn gwybodaeth.
- 2479 Shelter Cymru – pecyn gwybodaeth ynghylch hawliau a gwasanaethau:** PENDERFYNWYD gofyn am becyn
- 2480 Cynllun Diogelwch Cymunedol Ceredigion 2008-2011:** PENDERFYNWYD ei ddsbarthu.
- 2481 Cyfarwyddyd LICC ar wneud y defnydd gorau o adnoddau:** PENDERFYNWYD ei nodi
- 2482 Polisi Trwyddedu Ceredigion – dogfen ymgynghorol:** PENDERFYNWYD ei derbyn
- 2483 Addysg yng Ngheredigion - dogfen ymgynghorol:** PENDERFYNWYD ei phasio i'r Cyng. R Owen i adrodd arni yng nghyfarfod mis Hydref.
- 2484 Defnydd o gerbydau hamdden ym Mynyddoedd y Cambria – adroddiad drafft:** PENDERFYNWYD ei basio i'r Cyng. T. Davies.
- 2485 Cynhadledd Flynyddol Un Llais Cymru 11 Hydref 2008:** Trafodwyd y pum Cynnig a ddewiswyd i'w trafod yn y gynhadledd. Enwebwyd y Cyng. R Owen a M. Evans i'w mynychu.
- 9.00 pm: Ar wahoddiad y Cadeirydd, adroddodd y Cyng. Sir D Suter i'r Cyfarfod (1) Y bydd y cyfyngiadau cyflymder newydd ger IGER yn dod i rym yn fuan a (2) Bod swyddogion Ceredigion yn ymchwilio i'r dŵr sy'n achosi problemau ar wyneb ffordd Salem. Yna gadawodd y Cyfarfod.**

MATERION ARIANNOL

- 2486 HSBC – Balans Cyfrif Cymunedol 13/08/08:** £1,128.38 taflen 287
- 2487 Adran Gyllid Ceredigion:** manylion costau etholiadol y Cyngor Cymuned 2008. PENDERFYNWYD eu derbyn
- 2488 Ceisiadau am fin baw cŵn a goleuadau ychwanegol:** PENDERFYNWYD ystyried y ceisiadau hyn tua diwedd y flwyddyn ariannol.

Cytunwyd i dalu'r anfonebau canlynol:

- 2489 L Griffiths – Cyfieithiadau Gorffennaf 2008:** £86.76 siec 872
- 2490 P Walker – cyflog y clerc Gorff/Medi 2008:** £600.73 siec 873
- 2491 Anfoneb BT:** Taliadau a galwadau hyd 11 Medi 08 - £87.58 + TAW £14.54: Cyfanswm £102.12 siec 874
- 2492 Grŵp Datblygu Ysgol Trefeurig - Costau cyfreithiol llunio prydles adeilad yr ysgol gyda Cheredigion:** £100 siec 875
PENDERFYNWYD gwneud y taliad hwn dan y pwerau a ganiateir dan A133 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.
- Nodwyd y penderfyniadau cynllunio canlynol:**
- 2493 A071365** Llain gyferbyn â Berwynfa Penrhyncoch - codi annedd - rhoddwyd caniatâd
- 2494 A080374** Campws Penglais i IGER - gosod cebl/dwythell - rhoddwyd caniatâd
- 2495 A080516** Ger y Nant, Penrhyncoch - estyniad i'r dalar - rhoddwyd caniatâd
- 2496 A080759** Croeso Haf, Penrhyncoch - estyniad - rhoddwyd caniatâd
- 2497 A080761** Bryncadno, Penrhynnewydd - estyniad - rhoddwyd caniatâd

Ystyriwyd y ceisiadau cynllunio canlynol:

- 2498 A080783** Alltfadog, Capel Madog – codi melin wynt – dim gwrthwynebiad
- 2499 Cynhelir y Cyfarfod nesaf yn Neuadd y Penrhyn am 7.00 pm ar ddydd Mawrth, 21 Hydref 2008.**
- 2500 Cytunwyd i gynnwys yr eitem ganlynol ar yr agenda nesaf:**
Draen wedi blocio ar hyd ymyl y ffordd ger 1 Brogerddan, Penrhyncoch sy'n achosi llifogydd yn y garej cyfagos.

Daeth y Cyfarfod i ben am 9.25 pm.